

Nant Fawr Llwybr  
Llwybr amgen  
Dim Llwybr  
Troed



Clwb Golf Llanisien

Parc Cefn Onn

Coed y Felin

# Chwaraeon a Hamdden ar hyd Llwybr NANT FAWR

Bydd y map hwn yn eich helpu i ganfod y cyfleusterau hamdden a chwaraeon sydd ar gael ar hyd Llwybr Nant Fawr. Mae llawer o fannau agored prydferthaf Caerdydd i'w cael ar hyd Llwybr Nant Fawr, o lyn godidog ym Mharc y Rhath at y parciau a'r coetiroedd amrywiol. Cliciwch ar yr eiconau am fwy o wybodaeth...

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thim Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249

E-bost: [cefn gwlad@caerdydd.gov.uk](mailto:cefn gwlad@caerdydd.gov.uk)

Gwefannau: [www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad](http://www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad)  
[www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth)  
[www.outdoorcardiff.com](http://www.outdoorcardiff.com)

Clwb Golf Caerdydd

Coetir Cymunedol Nant Fawr

Parc y Mynydd Bychan

Llyn Parc y Rhath

Gerddi Rhosod a Thy Gwydr y Rhath

Mynwent Cathays

Gerddi Pleser y Rhath

Tir Hamdden y Rhath

Clwb Pen-y-lan

Gerddi Melin y Rhath a Gerddi Waterloo

# Llwybr Nant Fawr

Mae Llwybr Nant Fawr yn cynnig taith gerdded bleserus iawn, gan gysylltu Gerddi Waterloo yn y de â'r Llwybr Cefnffordd yn y gogledd. Mae'r Llwybr yn mynd heibio amryw o barciau, coetiroedd, a mannau glas.

Ceir arwyneb tarmac ar ran helaeth o'r Llwybr. Sylwch, o Oval Llandennis i gyfeiriad y gogledd, fod yr arwyneb yn amrywio rhwng tarmac, graean a chaeau agored, felly dylid gwisgo esgidiau addas. Caiff rhai parciau eu cloi gyda'r nos, a bydd yr amserau agor yn dibynnu ar y tymor.

Tua 12.8km (7.9 milltir) yw hyd y Llwybr, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n wastad. Fodd bynnag, ceir allt serth ar y rhan rhwng Cefn Onn a'r Llwybr Cefnffordd sy'n esgyn hyd at 250m uwch lefel y môr, lle ceir golygfeydd gwych o Gaerdydd a'r Cymoedd.

Prif Fap



# Clwb Golff Llanisien

Sefydlwyd Clwb Golff Llanisien ym 1905. Cwrs parcdir ydyw wedi'i leoli ar ochr bryn yng ngogledd Caerdydd lle ceir golygfeydd panoramig o'r ddinas, o Fôr Hafren ac o forlin Gwlad yr Haf. Yn ogystal â'r cwrs golff 18 twll, mae'r clwb hefyd yn cynnig bar, lolfra a bwyty er mwynhad ymwelwyr.



# Parc Cefn Onn

Mae Parc Cefn Onn ar gyrion gogledd Caerdydd. Mae'r parc wedi'i restru'n Radd II ac yn cynnwys casgliad rhagorol o goed cynhenid ac egstotig mewn dyffryn. Ceir digonedd o lwybrau drwy'r parc y gallwch fynd am dro neu loncian arnynt.


Mr Prosser, rheolwr hen Reilffordd Bro Taf, oedd yn berchen ar y parc yn wreiddiol ac a ddyluniodd ac a blannodd y planhigion yn y parc. Y bwriad oedd i'r parc fod yn rhan o ystâd fwy, a fyddai'n cynnwys tŷ newydd. Yn anffodus, bu farw Mr Prosser a'i unig fab cyn y bu modd gwireddu'r freuddwyd.

Ceir rhwydwaith eang o nentydd a llynnoedd sy'n mynd i bob rhan o goedwigoedd y parc. Llyn gwneud yw'r llyn mwyaf a grëwyd drwy osod argae ar y nant. Cyrchfan derfynol y nant hon, sy'n gynefin i lawer o wahanol rywogaethau, yw Llyn Parc y Rhath.

Cafodd grŵp Cyfeillion Cefn Onn ei ffurfio'n ddiweddar er mwyn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ofalu am y parc. Maent yn trefnu diwrnodiau gwaith i gynnal Parc Cefn Onn er mwyn i bawb allu mwynhau'r lle.

Ewch i fwynhau'r golygfeydd hyfryd ac ymlacio yn llonyddwch y parc.

Prif Fap





# Coed-y-Felin

Coetir lled naturiol hynafol yw Coed-y-Felin yn Llysfalen. Mae'r 16 erw (hectar) o goetir hardd yn eiddo i Gyngor Caerdydd. Mae'r ardal yn Safle o Ddiddordeb er Cadwraeth Natur ac yn rhan o Goridor Nant Fawr, sy'n strategol bwysig o safbwynt hamdden, amwynder a bywyd gwyllt. Ceir rhai ardaloedd o dir agored, felly mae'r ardal yn boblogaidd iawn fel lle i hamddena.

Mae'r coetir wedi ennill tair Gwobr Penwn Gwyrdd sy'n cydnabod mannau glas o ansawdd uchel yng Nghymru a Lloegr a gaiff eu rheoli gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

Grŵp brwdfrydig o wirfoddolwyr yw Cyfeillion Coed-y-Felin sydd wedi bod yn helpu i gadw'r coetir ers 1999. Mae'r grŵp yn cynnal partiön gwaith (fel arfer ar drydydd dydd Sul y mis) er mwyn gwneud gwaith cynnal ar y coetir a chyfrannu tuag at brosiectau presennol.

# Clwb Golff Caerdydd

Mae Clwb Golff Caerdydd yn cynnig cwrs 18 twll wedi'i amgylchynu gan goed yn ardal Cyncoed yng Nghaerdydd.

Sefydlwyd y Cwrs yn y 1920au, ac mae'n cynnwys nant droellog a choed aeddfed. Yn nhŷ'r clwb, a agorwyd ym 1999, ceir ystafelloedd newid, barau a siop Pro.





# Coetir Cymunedol Nant Fawr

Mae'r tir yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac yn cael ei reoli gan Gyfeillion Coetir Cymunedol Nant Fawr a sefydlwyd ym 1993. Mae'r cyfeillion yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gadw'r coetiroedd drwy drefnu diwrnodiau gwaith i osod llwybrau, clirio'r nant a chodi ysbwriel.

Mae'r coetir yn rhan bwysig o'r coridor gwyrdd ar hyd Nant Fawr, sy'n cysylltu canol Caerdydd â'r ardal o gefn gwlad yn y Gogledd. Yn rhan o'r coetir, ceir tair dŵl hynafol, ac mae i bob un ei nodweddion naturiol unigryw ei hun.

Disgrifir coedwig ddiweddarach Rhydypennau fel 'coetir eilaidd'. Wrth y Bont Haearn, ceir pwll tymhorol, sy'n llenwi hyd nes iddo orlifo yng nghawodydd y gaeaf ac yn sychu yng ngwres yr haf.

Roedd Coedwig Covert gynt yn rhan o goedwig fawr a orchuddiai Gyncoed a Llanisien. Bellach mae'n un o ddwy blanhigfa sy'n dal i fodoli ac yn cynnwys amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau o goed a blodau. Mae'r gair 'covert' yn golygu coetir sy'n rhoi cysgod i anifeiliaid hela, felly defnyddiwyd y goedwig i raddau helaeth fel cronfa ar gyfer hela a saethu a hefyd, mae'n siŵr, ar gyfer herwhela!

Yn gynnar yn y 1990au, gadawyd i fieri dyfu'n wyllt ar dir a elwir Y Padog a ddefnyddiwyd gynt fel tir pori ar gyfer merlod. Yn dilyn gwaith adfer, mae'r Padog bellach yn heulfan gysgodol wedi'i hamgylchynu â choed ar dair ochr iddi.

Roedd y ffynnon a'r pwll bychan yn Yr Oval yn ffynhonnell bwysig o ddŵr i'r gymuned o fynachod a ymgartrefodd yma yn y cyfnod cynnar, ac am flynyddoedd tybiwyd mai ffynnon iachaol ydoedd.

# Parc y Mynydd Bychan

Yn wreiddiol, roedd Parc y Mynydd Bychan yn rhan o 'Rostir Mawr' Caerdydd, sef ardal o dir comin. Defnyddiwyd y parc fel cae ras yn ystod y 18fed ganrif, ac fe'i prynwyd gan y Cyngor ym 1938 i'w ddefnyddio i hyfforddi gŵyr traed yn yr Ail Ryfel Byd. Yn wreiddiol roedd rhan o'r parc yn cynnwys Plasty'r Mynydd Bychan, ond cafodd y plasty ei ddinistrio mewn tân ym 1980. Heddiw, mae Parc y Mynydd Bychan yn cynnwys caeau chwaraeon, coetiroedd a llynnoedd ar ei 37 o hectarau, ac yn 'ysgyfant gwyrdd' bwysig ym maestrefi gogledd Caerdydd. Ceir llawer o gyfleusterau hamdden hefyd yn y parc, gan gynnwys cyrtiau tennis, caeau chwaraeon, golff byr, llecyn chwarae a Gym Awyr Agored sy'n galluogi'r cyhoedd i gadw'n heini'n rhad ac am ddim.

Ar rai diwrnodiau o'r flwyddyn, bydd Cymdeithas Modelau Rheilffyrdd a Thramffyrdd Parc y Mynydd Bychan yn cynnal diwrnodiau agored lle gall aelodau o'r cyhoedd deithio ar y trenau ar y llinell reilffordd fechan.

Ffurfiwyd Cyfeillion Coetir Parc y Mynydd Bychan dros 12 mlynedd yn ôl, ac fe'u cefnogir gan Wasanaeth Ceidwaid Parciau Cyngor Caerdydd. Bydd y Grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cyflawni gwaith yn y coetir, fel plannu coed yn yr hydref/gaeaf a chlirio'r pwll yn y gwanwyn.







# Llyn Parc y Rhath

Parc y Rhath, a agorwyd yn wreiddiol ym 1894, yw un o'r parciau cyhoeddus a drysorir fwyaf yng Nghaerdydd. Mae wedi'i gydnabod yn un o'r enghreifftiau gwychaf ym Mhrydain o barciau o ddiwedd oes Fictoria, ac felly wedi'i restru'n barc Gradd I. Mae hefyd wedi ennill Baner Werdd sy'n cydnabod ansawdd uchel y cyfleusterau a'r ddarpariaeth yn y parc. Ffurfir y parc o gyfres linol o barciau ar hyd Nant y Rhath, ac iddynt gymeriad amrywiol. Yng nghanol y parc, ceir llyn godidog 30 erw o faint, sy'n lleoliad poblogaidd ymysg y cyhoedd. Mae'n un o'r hoff lefydd gan bysgotwyr i bysgota, a gellir llogi cychod pedal ar ddiwrnod o haf er mwyn crwydro'n hamddenol o amgylch rhan o'r llyn.

Mae caffi i'w gael yn ne'r llyn sy'n gweini bwydydd poeth ac oer drwy'r flwyddyn. Oddi yno ceir golygfa dda o'r llyn a'r amryw o adar sy'n ymweld â'r lle.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, daeth grŵp o wirfoddolwyr ynghyd i gefnogi'r parc clodfawr hwn. Ffurfiwyd Cyfeillion Parc y Rhath er mwyn cynorthwyo Cyngor Caerdydd a bod yn bartner iddo er mwyn rheoli'r parc. Eu nod yw hybu'r parc er mwyn denu ymwelwyr iddo o gynulleidfa ehangach. Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cynorthwyo i gynnal yr ardd fotaneg a Thŷ Gwydr y Rhath, a hefyd yn helpu gyda digwyddiadau a chodi arian.

# Gerddi Rhosod a Thŷ Gwydr y Rhath

Ym Mharc y Rhath, ceir hefyd Dŷ Gwydr a Gardd Rosod odidog. Mae'r gerddi'n cynnwys casgliad rhagorol o goed a llwyni, gardd rosod, llecyn chwarae antur a Thŷ Gwydr Parc y Rhath. Mae'r tŷ gwydr yn cynnwys dros 350 o wahanol blanhigion, yn ogystal â chrwbanod dŵr croyw a physgod.





# Mynwent Cathays

Mynwent Cathays yw un o fynwentydd mwyaf a mwyaf trawiadol Prydain. Mae'n cynnwys miloedd o gofebion sy'n dyddio o 1859 sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr i hanes Caerdydd.

Mynwent fawr Fictoraidd sydd wedi'i gynnal yn dda ydyw, ac mae ei chynllun a'r planhigion bytholwyrdd yno'n parhau i fod yr un peth â'r dyluniad gwreiddiol. Mae'r safle, a chanddo arwynebedd o 35 hectar bron, yn lle tawel i fynd am dro ac yn gynefin i lawer o rywogaethau gwahanol o anifeiliaid.

Mae Cyfeillion Mynwent Cathays yn elusen gofrestredig sy'n anelu i gadw a diogelu ffawna, fflora, seilwaith a chofebion ac adeiladau'r fynwent. Mae hefyd yn anelu i addysgu'r cyhoedd am hanes a threftadaeth y fynwent ac i hyrwyddo ei phwysigrwydd fel ardal gadwraeth.

Am wasanaethau profedigaeth, cysylltwch â Mynwent Thornhill a Chrematoriwm Caerdydd ar 029 2062 3294.

# Gerddi Pleser y Rhath

I'r de o'r Ardd Rosod a'r Ystafell Wydr, y mae Gerddi Pleser y Rhath. Yno, ceir cyfleusterau bowlio, tennis a phêl fasedd ffurfiol Parc y Rhath. Mae'n anodd credu bod paradwys y parc hwn mor agos at Ganol Dinas Caerdydd.



# Tir Hamdden y Rhath

Tir Hamdden y Rhath, yn gyfagos â'r Gerddi Pleser, yw canolbwynt chwaraeon Parc y Rhath. Mae'r tir yn cynnwys caeau chwaraeon, cae chwarae i'r plant a gym awyr agored i'w ddefnyddio gan y cyhoedd. Mae'n boblogaidd drwy'r flwyddyn, yn enwedig ym misoedd yr haf. Bydd timau chwaraeon lleol hefyd yn ymarfer yn yr ardal hon, a gwelir loncwyr yno'n aml.





# Clwb Pen-y-lan

Agorwyd y clwb yn wreiddiol fel Clwb Bowlio i ddynion ym 1909. Gall menywod, yn ogystal â dynion fowlio yno erbyn hyn. Mae cyfleusterau yno hefyd i chwarae bridge dyblyg a pétanque (boules). Crëwyd y lawnt fowlio pan agorwyd y clwb yn wreiddiol. Mae rhannau o adeilad gwreiddiol y clwb hefyd wedi goroesi, er bod bar trwyddedig wedi ei ychwanegu ato. Mae hwnnw ar agor pob nos.

Mae'r lawnt o ansawdd dda ac mae yno hefyd ardal chwarae pétanque a neuadd i chwarae bridge dyblyg cystadleuol. Croesewir dechreuwyr a chwaraewyr profiadol i bob adran. Mae'r adran gymdeithasol hefyd yn fywiog.

Mae Clwb Pen-y-lan oddi ar Marlborough Road, y tu cefn i Sandringham Road ac mae'n agored i aelodau preifat. I gael rhagor o wybodaeth am y clwb a sut i ymaelodi ewch i [www.penylanclub.org.uk](http://www.penylanclub.org.uk).





# Gerddi Melin y Rhath a Gerddi Waterloo

Mae Gerddi Melin y Rhath a Gerddi Waterloo yn ddwy enghraifft wych o barciau Edwardaidd. Mae'r nant sy'n rhedeg drwyddynt yn eu cysylltu â pharc cyfagos y Rhath. Mae'r parciau wedi'u rhestru'n Radd II a'u lleoli mewn Ardal Gadwraeth sy'n anelu i gadw cymeriad unigryw'r parciau a'r tai Edwardaidd o'u hamgylch. Mae'r parciau'n hynod ddeniadol oherwydd y gymysgedd o goed, y planhigion ar lan y nant a'r planhigion addurnol ffurfiol a geir yno.